


# Y CAM NESAF

## Croesi'r bont o'r Ganolfan Iaith i'r Fam Ysgol

Cynllun Ôl-ofal Canolfannau Iaith Gwynedd a Môn

Yn ystod y tymor hwn cyflwynir ffeil ôl-ofal newydd i'r ysgolion cynradd.

Ffeil yw hon i gryfhau'r berthynas rhwng y plentyn, yr ysgol a'r Ganolfan Iaith y mae wedi ei mynychu.



Lluniwyd y ffeil gan athrawon Canolfannau Iaith Gwynedd a Môn.

Ynddi ceir casgliad o weithgareddau grweiddiol, gweithgareddau 'parod' a safweoedd addas.

Y bwriad yw cynnig amrywiaeth o weithgareddau diddorol fyddai'n rhoi cyfle i gyn-ddisgyblion y Canolfannau Iaith ymarfer a datblygu eu sgiliau llafar i'r 'cam nesaf', ynghyd ag adolygu patrymau ieithyddol cyfarwydd. Awgrymir gweithgareddau fyddai'n rhoi cyfleoedd ail-adrodd i sefydlu patrymau ieithyddol newydd, a chyfoethogi iaith lafar y disgyblion.

Rhydd hyn hyder i'r disgyblion allu defnyddio'r iaith i wahanol bwrsasau. Gall athrawon, wrth gwrs, addasu'r gweithgareddau, yn ogystal â chreu gweithgareddau ychwanegol i'w diben eu hunain.

Yn ogystal â gweithgareddau, ceir gwersi byrion i arwain yr athro/cymhorthydd drwy'r camau dysgu.

Y gobaith yw y byddant yn fodd i hybu sgwrsio rhwydd a naturiol yn y Gymraeg.


Yn rhan gyntaf y ffeil, nodir y patrymau gyflwynir i'r disgyblion yn y Canolfannau Iaith, ac yna nodir y patrymau fyddai'n fuddiol eu cyflwyno i'r disgyblion fel y 'cam nesaf'.

Rhennir y patrymau iaith dan 6 phennawd:

- Cyfarch/sefydlu perthynas
- Mynegi teimladau/barn
- Tywydd ac amser
- Rhoi a dilyn cyfarwyddiadau
- Cyfleu profiadau personol / dychmygus
- Cyflwyno Gwybodaeth

Bydd gan bob plentyn lyfryn personol i gadw cofnod o'i ddatblygiad. Ar

ddiwedd ei dymor cyntaf yn ôl yn ei ysgol, cyflwynir tystysgrif llwyddiant i'r plentyn.



Os ydych am fwy o wybodaeth cysylltwch â'ch Canolfan Iaith.

### Cymorth ychwanegol...

Mae'r llyfryn 'Help' eisoes wedi ei greu ers nifer o flynyddoedd.

Llyfryn yw hwn i roi cymorth i'r disgybl gyda geirfa a phatrymau iaith wrth iddo ddychwelyd i'w ysgol.

Mae'r daflen gymorth 'Rheolau Aur' yn atgoffa ysgolion o rai ffyrdd syml o sicrhau llwyddiant wrth dderbyn disgyblion yn ôl o'r Canolfannau Iaith.

## YMATEB PENNAETH

Cawsom fudd mawr o ymweliad Gwenan Ellis Jones o'r Ganolfan Iaith ym Maesincla ag ysgol Llanllechid. Gan ddefnyddio'r adnoddau sydd wedi'u creu yn y rhaglen ôl ofal fel model i'r gwersi, llwyddodd i sbarduno'r plant a'r athrawon trwy frwdfrydedd heintus a'i hiwmor. Mae'r ymweliad wedi gwneud i ni feddwl mwy am ein ffyrdd o gyflwyno a datblygu llafaredd plant. Mae'r athrawon yn teimlo fod eu sgiliau addysgu gloywi iaith wedi eu datblygu ymhellach drwy'r torreth o

syniadau sy'n cael eu cyflwyno yn y rhaglen ôl ofal newydd. Bydd y ffeil a'r ddisg sy'n cyd-fynd yn cael ei dosbarthu i bob ysgol yng Ngwynedd a Môn erbyn dechrau tymor yr Hydref.

Yn sicr mae hyn yn rhywbeth mae ysgolion ei angen. Mwy os gwelwch yn dda!

Gwenan Davies Jones  
(Pennaeth Ysgol Llanllechid)

### Rheolau Aur i sicrhau llwyddiant!

- Mae'n hanfodol i'r athrawon siarad Cymraeg yn bwylllog yn ystod yr wythnosau cyntaf.
- Mynnu ac annog y plant i ymateb yn y Gymraeg.
- Defnyddio patrymau iaith y llyfr 'Help'.
- Dewis mêt-iaith o blith plant y dosbarth.
- Creu cyfleoedd i'r plant siarad e.e. deialogau a gemau iaith addas.